

PRICE-WHITE, DAVID ARCHIBALD PRICE (1906-1978), gwleidydd Ceidwadol

Enw: David Archibald Price Price-white
Dyddiad geni: 1906
Dyddiad marw: 1978
Rhyw: Gwryw
Gwledigaeth: gwleidydd Ceidwadol
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: John Graham Jones

Ganed ef ym Mangor ar 5 Medi 1906, yn fab i Price Ffoulkes White, pel-droediwr rhngwladol Cymreig, a Charlotte Bell. Addysgywyd ef yn Ysgol Friars, Bangor a Choleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Gweithiodd fel cyfreithiwr o 1932 tan 1956 ac ef oedd y prif bartner o fewn cwmni Price White, cyfreithiwr, Bae Colwyn. Ymunodd âr Fyddin Diriogaethol ym 1928-29, a gwelodd wasanaeth milwrol ar faes y gad drwy gydol yr Ail Ryfel Byd, gan wasanaethu yn Dunkirk, yna gyda bataliwn gwarchodlu'r glannau, ac yna yn Ffrainc, y Dwyrain Canol, ynys Sisilia, yr Eidal, a Dwyrain Affrica.

Bu'n aelod o Gyngor Sir Gaernarfon, 1939-41, a bu hefyd yn aelod o Gyngor Dinas Bangor. Ef oedd AS Ceidwadol hen sedd **Lloyd George** sef Bwrdeistrefi Caernarfon o 1945 tan 1950. Cipiodd y sedd gyda mwyafrif bychan o 336 o bleidleisiau'n unig oddi ar AS Rhyddfrydol **Yr Athro D. R. Seaborne-Davies** a'i daliodd ar ran y Rhyddfrydwyr yn yr isetholiad ym mis Mai. Yn etholiad cyffredinol Gorffennaf 1945 safodd Price-White fel cefnogwr i'r carn i Syr Winston Churchill yn ei ymgyrch i sicrhau buddugoliaeth yn y rhifel yn erbyn Japan. Ar ôl hynny diflannodd yr etholaeth pan ail-ddosbarthwyd ffiniau'r etholaethau seneddol. Penodwyd ef yn Brif Gynorthwywr Pencadlys Rhanbarth y Canolbarth o'r Bwrdd Trydan Cyffredinol ym 1957.

Ei gartref oedd Dolanog, Pwllcrochan Avenue, Bae Colwyn. Priododd Gwyneth Harris ym 1934, a bu iddynt un mab ac un ferch. Bu farw 6 Mawrth 1978.

Awdur

Dr John Graham Jones

Ffynonellau

Who was who?

Etholiadau'r Ganrif, 1885-1997 (Talybont 1999)

Welsh Hustings - 1885-2004 (Rhydaman 2005)

Dod's Parliamentary Companion

North Wales Weekly News, 19 Ebrill 1945

J. Graham Jones, *David Lloyd George and Welsh Liberalism* (2010)

Darllen Pellach

Archifau LIGC: [Vote for Price White](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q5238706](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2011-06-23

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydai Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Ardull APA



Jones, J. G., (2011). PRICE-WHITE, DAVID ARCHIBALD PRICE (1906-1978), gwleidydd Ceidwadol. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c8-PRIC-PRI-1906>


Copiar i'r

Adferwyd

Preifatrwydd a Chwcius
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodwedd
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government